

## PRICHARD, JOHN (1817 - 1886), pensaer

**Enw:** John Prichard  
**Dyddiad geni:** 1817  
**Dyddiad marw:** 1886  
**Rhiant:** Eleanor Prichard  
**Rhiant:** Richard Prichard  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** pensaer  
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth  
**Awdur:** Megan Ellis

Mab y Parch. Richard Prichard, rheithor Llan-gan yn Sir Forgannwg a ficer corawl eglwys gadeiriol Llandaf, a'i wraig Eleanor. Ganed ef 6 Mai 1817 a bedyddiwyd ef gan ei dad yn Llan-gan 10 Gorffennaf 1817.

Astudiodd bensaernïaeth a phenodwyd ef yn bensaer i esgobaeth Llandaf. Bu'n gyfrifol am atgyweirio ac ailadeiladu nifer o eglwysi yn yr esgobaeth, yn enwedig eglwys Baglan, ac ef oedd y pensaer a fu'n gyfrifol am yr atgyweiriadau helaeth yn adeiladau'r eglwys gadeiriol yn Llandaf rhwng 1844 a 1857.

Bu farw 13 Hydref 1886 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys gadeiriol Llandaf, ar ochr dde'r eglwys yn agos i Gapel y Forwyn, ac yn yr un bedd â'i dad a fu'n gysylltiedig â'r eglwys gadeiriol am 35 mlynedd. Gosodwyd tabled pres er cof amdano ar fur deheuol y twr de-orllewinol.

### Awdur

Megan Ellis, (1906 - 2001)

### Ffynonellau

Adysgrifau esgobion Llandaf

J. H. James, *A history and survey of the cathedral church of SS. Peter, Paul, Dubritius, Teilo, and Oudoceus, Llandaff* (1898)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Prichard

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 16983731

Wikidata: Q541594

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n braf ymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Ellis, M., (1953). PRICHARD, JOHN (1817 - 1886), pensaer. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PRIC-JOH-1817>



LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodol i'r  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government